Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro
Cardiff & Vale Safeguarding Board

# Wythnos Diogelu Genedlaethol
# 11 - 15 Tachwedd 2024

# Rhaglen Ddigwyddiadau

#DiogeluCymru
#DiogeluCymru

| Dydd Llun 11 Tachwedd 2024 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amser** | **Enw'r Digwyddiad a Disgrifiad Ohono** | **Cynulleidfa Darged** | **Lleoliad** | **Cadw Lle/Manylion Cyswllt** |
| 10.00 - 12:00 | **Myfyrio ar dystiolaeth: Cefnogi pobl i wneud penderfyniadau am eu gofal**<br><br>**Wedi ei hwyluso gan Rhiannon Wright, Rheolwr Cymunedol Tystiolaeth, Gofal Cymdeithasol Cymru a Gill Toms o DEEP (Datblygu Ymarfer wedi'i gyfoethogi gan Dystiolaeth)**<br><br>Yn y sesiwn hon, byddwn yn canolbwyntio ar Grynodeb newydd o Dystiolaeth Gofal Cymdeithasol Cymru: Cefnogi pobl i wneud penderfyniadau am eu gofal. Mae'r crynodeb yn trafod nifer o themâu gan gynnwys: model cymdeithasol o anabledd, galluedd meddyliol a chymryd risgiau cadarnhaol.<br><br>Yn y gweithdy rhyngweithiol hwn, byddwn yn eich gwahodd i siarad gyda'ch gilydd a myfyrio ar yr hyn y gallai hyn ei olygu i chi a'ch ymarfer. | Ymarferwyr Gofal Cymdeithasol a/neu unrhyw un sydd â diddordeb mewn dod ag ymchwil i ymarfer gofal cymdeithasol | I'w gadarnhau | I gadw lle cysylltwch â:<br><br>BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk |
| 13:30 – 14:30 | **Ymgyrch Listen Up, Speak Up (Hwylusir gan Lili Dunn, NSPCC Cymru)**<br><br>Mae'r Ymgyrch Listen Up, Speak Up yn pwysleisio cyfrifoldeb cyfunol y gymuned am ddiogelu plant. Gan gydnabod ei bod yn cymryd pentref i fagu plentyn, mae'n gweithredu ar yr egwyddor ei bod, yn yr un modd, yn cymryd cymuned i sicrhau diogelwch plant.<br><br>**Amcan:**Ysgogi aelodau'r gymuned a gweithwyr proffesiynol i fod yn wyliadwrus, yn rhagweithiol ac yn gefnogol yn eu hymdrechion diogelu. | Gweithwyr proffesiynol amlasiantaethol a'r gymuned | Microsoft Teams | I gadw lle, cysylltwch â:<br><br>BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk |

#DiogeluCymru
#DiogeluCymru

| Dydd Mawrth 12 Tachwedd 2024 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amser** | **Enw'r Digwyddiad a Disgrifiad Ohono** | **Cynulleidfa Darged** | **Lleoliad** | **Cadw Lle/Manylion Cyswllt** |
| 09:00 – 17:00 | **Codi Ymwybyddiaeth / Stondin Gwybodaeth ynglŷn â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol (DGM)**<br>Ymgyrch codi ymwybyddiaeth ar gyfer staff a'r cyhoedd mewn perthynas â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a thrwy ddosbarthu adnoddau.<br><br>*Mae'r DGM yn diogelu pobl yn y ffyrdd canlynol:*<br><br>1. *Diogelu eu hawl i ymreolaeth, a rhoi dulliau cyfreithiol i bobl gynllunio ar gyfer eu dyfodol fel Atwrneiaeth Arhosol a Phenderfyniadau Uwch i Wrthod Triniaeth*<br>2. *Diogelu pobl ag amhariad o ran gwneud penderfyniadau trwy nodi eu hawliau wrth asesu eu penderfyniadau neu wrth wneud penderfyniadau ar eu rhan*<br><br>*Fodd bynnag, mae ymchwil yn awgrymu nad oes gan bobl sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor sy'n effeithio ar eu penderfyniadau, neu sy'n gofalu am rywun â chyflwr o'r fath, fawr o ymwybyddiaeth ar y cyfan o ba hawliau y mae'r DGM yn eu rhoi iddyn nhw - er enghraifft, er bod 40% o'r boblogaeth wedi gwneud ewyllys, dim ond 1% sydd wedi creu Atwrneiaeth Arhosol.*<br><br>***Mae Tîm DGM Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn defnyddio Wythnos Diogelu Genedlaethol fel cyfle i godi ymwybyddiaeth staff a'r cyhoedd am eu hawliau o dan y DGM. Bydd hyn drwy ymgyrch cyfryngau cymdeithasol a digwyddiad wyneb yn wyneb ar brif safle'r ysbyty i rannu adnoddau ac ateb cwestiynau.*** | Gweithwyr proffesiynol amlasiantaethol a'r cyhoedd | Cyntedd Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd | Pippa Johnson, Ymarferydd Arbenigol Galluedd Meddyliol, BIPCaF |
| 10.00 – 11:00 | **Sesiwn Wybodaeth Siarad PANTS**<br>**(Hwylusir gan NSPCC Cymru)** | Gweithwyr proffesiynol; athrawon; ymarferwyr | Eventbrite (Ar-lein) | https://events.teams.microsoft.com/event/75dada39- |

#DiogeluCymru
#DiogeluCymru

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Bydd y sesiwn hon yn **Fersiwn Gymraeg** o sesiwn wybodaeth Talk PANTS Un sesiwn yw hon sy'n cael ei chynnig ar draws Cymru gyfan.<br><br>Mae'r ymgyrch Siarad PANTS wedi'i ddylunio i helpu plant i ddeall bod eu cyrff yn perthyn iddyn nhw ac i'w grymuso i siarad am unrhyw beth sy'n gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus.<br><br>Nod y sesiwn fydd addysgu gweithwyr proffesiynol ac aelodau'r gymuned am sut i gyfleu'r negeseuon pwysig hyn yn effeithiol i blant ac atal camdriniaeth trwy wneud hynny. | meithrin a'r rhai sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant | | 306b-43e0-8681-0f283b4bd6f7@3c4f002a-8d6d-4ede-8372-faf47ca8473f |
| 14:00 - 15:30 | **Cydnabod ac Ymateb i Arwyddion o Esgeulustod – Gweminar**<br><br>**(Hwylusir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) a'r Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig)**<br><br>Ystyr esgeulustod yw methiant i ddiwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol person, sy'n debygol o arwain at amharu ar les y person. Yn y weminar hon, rydym yn archwilio esgeulustod ymhlith pobl ifanc a'r rhai o gefndir ethnig lleiafrifol.<br><br>Mae'r weminar hon yn cael ei chynnal gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) ar y cyd â'r Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST) ac mae'n **RHAD AC AM DDIM** i ddod iddi. | Gweithwyr proffesiynol amlasiantaethol a'r trydydd sector | Ar-lein | I gael mwy o wybodaeth a chadw lle, ewch i adran y newyddion diweddaraf ar wefan CGGC **YMA** |

#DiogeluCymru

#DiogeluCymru

| Dydd Mercher 13 Tachwedd 2024 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amser** | **Enw'r Digwyddiad a Disgrifiad Ohono** | **Cynulleidfa Darged** | **Lleoliad** | **Cadw Lle/Manylion Cyswllt** |
| 09:00 - 10:00 | **Gweminar: Lansio E-Hunanasesiad Diogelu**<br><br>Bydd y weminar yn lansio'r offeryn Hunanasesu Diogelu Blynyddol electronig ar gyfer ysgolion (Caerdydd). | UBDau, Penaethiaid, Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am Ddiogelu. | Microsoft Teams | pnorton@caerdydd.gov.uk<br><br>(Bydd y ddolen yn cael ei hanfon at UBDau ysgolion Caerdydd. Os oes gan eraill ddiddordeb mewn ymuno, cysylltwch â Phil Norton i drefnu i'r ddolen gael ei hanfon.) |
| I'w gadarnhau | **Gweithdai Vigilant ar gyfer Bechgyn a Dynion**<br><br>**(Hwylusir gan Minus Violence)**<br><br>Mae ein gweithdai dwy awr wedi'u dylunio i roi'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen ar gyfranogwyr i adnabod a herio ideolegau eithafol. Gan ddefnyddio amlgyfrwng i wella'r trafodaethau, bydd yr hwylusydd yn mynd i'r afael ag ystod o faterion gan gynnwys eithafiaeth atgas, niwed ar-lein, eithafiaeth grefyddol, gwrywdod, radicaleiddio a chamfanteisio troseddol. Yn archwilio'r ffordd mae'r cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio i annog pobl ifanc tuag at hiliaeth, radicaleiddio ac eithafiaeth. Nod y gweithdy yw meithrin gwydnwch a gwyliadwriaeth gryfach i gadw pobl yn ddiogel. | Mae hwn yn weithdy arbenigol, yn benodol ar gyfer sefydliadau cymunedol lleol (bechgyn a dynion ifanc 12-30 oed), fel y cytunwyd gyda'r Tîm Prevent. | (Lleoliad y gofynnir amdano gan y sefydliad sy'n gwneud yr archeb, fel arfer ei leoliad ei hun) | I archebu gweithdy, cysylltwch â:<br><br>Nicola Winstanley, Tîm Prevent, Caerdydd<br><br>Nicola.Winstanley@caerdydd.gov.uk<br><br>(**Sylwer** - nid yw hyn ar gyfer archebion unigol, mae ar gyfer grŵp i archebu gweithdy i'w gynnal yn eu sefydliad.<br><br>Byddai'n rhaid i'r Tîm Prevent gytuno ar y sefydliad a'r grŵp sy'n archebu'r gweithdy gan fod ganddynt nifer cyfyngedig o leoedd ac maent yn ceisio |

#DiogeluCymru
#DiogeluCymru

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Amseroedd sy'n addas i'r sefydliad sy'n archebu. Mae pob gweithdy yn para hyd at ddwy awr. | | | cynnwys grwpiau penodol.) |
| 12:30-14:00 | **'Galluedd Meddyliol a Hunanesgeulustod' - Hyfforddiant Amlasiantaeth**<br><br>***(Hwylusir gan Pippa Johnson, Ymarferydd Arbenigol Galluedd Meddyliol, Tîm Galluedd Meddyliol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro)***<br><br>Bydd yr hyfforddiant hwn ar gael i weithwyr proffesiynol amlasiantaethol a bydd yn trafod yr elfennau pwysig, ond cymhleth yn aml, o sut y gall gofynion y Ddeddf Galluedd Meddyliol effeithio ar sut rydym yn cefnogi cleifion sydd mewn perygl o hunanesgeulustod. Bydd yn trafod y cyd-destun cyfreithiol a pham mae'r DGM yn rhan hanfodol o ddiogelu, pryd i ystyried asesu galluedd, cymhlethdodau wrth asesu gwneud penderfyniadau a thynnu sylw at yfed dibynnol cronig fel poblogaeth gymhleth o ddefnyddwyr gwasanaeth. | Gweithwyr proffesiynol amlasiantaethol | Microsoft Teams | I gadw lle, cysylltwch â:<br><br>BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk |
| 15:30 – 16:30 | **Sesiwn Wybodaeth Siarad PANTS**<br><br>**(Hwylusir gan Rhys Beaven, NSPCC Cymru)**<br><br>Mae'r ymgyrch Siarad PANTS wedi'i ddylunio i helpu plant i ddeall bod eu cyrff yn perthyn iddyn nhw ac i'w grymuso i siarad am unrhyw beth | Gweithwyr proffesiynol; athrawon; ymarferwyr meithrin a'r rhai sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant | Microsoft Teams | I gadw lle cysylltwch â:<br><br>BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk |

#DiogeluCymru

#DiogeluCymru

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | sy'n gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus.<br><br>Nod y sesiwn fydd addysgu gweithwyr proffesiynol ac aelodau'r gymuned am sut i gyfleu'r negeseuon pwysig hyn yn effeithiol i blant ac atal camdriniaeth trwy wneud hynny | | | |


#DiogeluCymru

| Dydd Iau 14 Tachwedd 2024 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amser** | **Enw'r Digwyddiad a Disgrifiad Ohono** | **Cynulleidfa Darged** | **Lleoliad** | **Cadw Lle / Manylion Cyswllt** |
| 10:30 – 11:30 | **Sut i Ddiogelu Eich Gwirfoddolwyr - Gweminar**<br><br>**(Hwyluswyd gan CGGC a'r Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig)**<br><br>Bydd defnyddio dull diogelu mewn perthynas â gwirfoddoli yn helpu'ch sefydliad i gadw pobl yn ddiogel. Yn y weminar hon, rydym yn trafod beth gall eich sefydliad ei wneud, a sut, er mwyn sicrhau bod eich gwirfoddolwyr yn cael eu cadw'n ddiogel bob amser wrth wirfoddoli.<br><br>(Cynhelir y weminar hon gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) ac mae'n **RHAD AC AM DDIM** i ddod iddi.) | Sefydliadau trydydd sector/gwirfoddol, mentrau cymdeithasol | Ar-lein | I gael mwy o wybodaeth a chadw lle, ewch i'r adran newyddion ddiweddaraf ar wefan CGGC **YMA** |
| 10:00 – 11:30 | **Diogelu Pobl Ifanc Drawsryweddol rhag Camfanteisio (Cymru)**<br><br>***(Hwylusir gan Holly Sayce, Swyddog Prevent – Cymru, Rhaglen Prevent, Cymdeithas y Plant. Cyflwynir gyda chefnogaeth Elusen De Cymru, Good Vibes.)***<br><br>Bydd y sesiwn hon yn archwilio sut y gall rhwystrau o fewn y gymdeithas, fel trawsffobia, arwain at fethu ag amddiffyn pobl ifanc draws ac anneuaidd rhag camfanteisio a niwed, a'r hyn y gallwn ei wneud i oresgyn y rhwystrau hyn yn ein hymarfer ac yn ein systemau.<br><br>Yn y sesiwn hon byddwn yn archwilio'r risgiau y mae pobl ifanc draws Cymru yn eu hwynebu yn 2024 ac yn rhannu barn a phrofiadau gweithwyr proffesiynol sy'n arbenigo mewn gweithio gyda phobl ifanc. Byddwn yn archwilio'r risgiau penodol y mae'r bobl ifanc hyn yn eu hwynebu a sut bydd datblygu gwasanaethau mwy | Gweithwyr proffesiynol amlasiantaethol | Eventbrite (ar-lein) | https://www.eventbrite.co.uk/e/safeguarding-transgender-young-people-from-exploitation-wales-tickets-1013494137247 |

#DiogeluCymru
#DiogeluCymru

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | cynhwysol yn eu hamddiffyn rhag niwed yn well. | | | |

| Dydd Gwener 15 Tachwedd 2024 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amser** | **Enw'r Digwyddiad a Disgrifiad Ohono** | **Cynulleidfa Darged** | **Lleoliad** | **Cadw Lle/Manylion Cyswllt** |
| 09:00 – 16:00 | **Cynhadledd Ddiogelu BDCF**<br>**Thema: Esgeulustod**<br><br>Bydd nifer o gyflwyniadau'n cael eu rhoi gan siaradwyr allweddol ynghylch meysydd esgeulustod ymhlith plant ac oedolion.<br><br>Bydd gweithdai rhyngweithiol yn cael eu cynnal fel rhan o sesiwn y prynhawn. | Gweithwyr proffesiynol amlasiantaethol | Gwesty The Village, 29 Heol Pendwyallt, Caerdydd CF14 7EF | I gadw lle cysylltwch â:<br><br>BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk |

#DiogeluCymru
#DiogeluCymru

#DiogeluCymru
#DiogeluCymru

| DIGWYDDIADAU YCHWANEGOL (y tu allan i Wythnos Diogelu Genedlaethol) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **21 Tachwedd 2024** | | | | |
| **Amser** | **Enw'r Digwyddiad a Disgrifiad Ohono** | **Cynulleidfa Darged** | **Lleoliad** | **Cadw Lle/Manylion Cyswllt** |
| 09.30 – 12<br><br>12.30 – 15.00 | Mae Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru (BDAC), mewn partneriaeth â Metropolis ym Mhrifysgol Metropolitan Manceinion, yn falch o gyhoeddi eu cynhadledd ddiogelu flynyddol ar-lein, gyda'i ffocws ar ddiogelu oedolion.<br><br>Gyda Chyflwyniadau gan:<br><br>• Yr Athro Suzy Braye, Athro Emerita mewn Gwaith Cymdeithasol, Prifysgol Sussex a'r Athro Michael Preston-Shoot, Athro Emeritws mewn Gwaith Cymdeithasol, Prifysgol Swydd Bedford.<br><br>• Yr Athro Michelle McManus ac Emma Ball, Prifysgol Metropolitan Manceinion<br><br>Nod y gynhadledd yw archwilio dysgu o Adolygiadau Diogelu Oedolion ac o fewn llenyddiaeth i nodi'r materion allweddol, arfer da a heriau, gyda ffocws ar yr hyn sydd angen digwydd nesaf. Bydd y cyflwynwyr yn rhannu canfyddiadau o adroddiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan gynnwys:<br><br>• Canfyddiadau Adolygiad Cyflym o Lenyddiaeth Diogelu Oedolion Cymru<br><br>• Ail Ddadansoddiad Cenedlaethol o Adolygiadau Diogelu Oedolion yn Lloegr: Ebrill 2019 – Mawrth 2023<br><br>• Canfyddiadau Cychwynnol o'r Dadansoddiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Oedolion yng Nghymru 2024, sy'n canolbwyntio ar ffactorau risg, Ymateb | Gweithwyr proffesiynol amlasiantaethol | Drwy Microsoft Teams | Manylion pellach i ddilyn. |

#DiogeluCymru
#DiogeluCymru

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | (ymatebion sefydliadol ac amlasiantaeth) ac Adolygu. | | | |

#DiogeluCymru
#DiogeluCymru